Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Ffairfach
Heol Bethlehem
Ffairfach
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6SY

17/12/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Ffairfach, sydd mewn ffederasiwn ag Ysgol Gynradd Talyllychau ac Ysgol Gynradd Cwrt Henri, yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un flaenoriaeth yng nghynllun gwella cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Sicrhau bod blaenoriaethau gwella'r ysgol yn glir ac yn fesuradwy

- Mae'r pennaeth yn sefydlu ac yn cynnal diwylliant o arweinyddiaeth ddosranedig effeithiol ar draws ysgolion y ffederasiwn sy'n cyfrannu'n fuddiol at lunio, a gweithredu, blaenoriaethau gwella cytûn synhwyrol.
- Mae'r cynllun gwella yn gynhwysfawr ac yn nodi camau gweithredu clir, llinellau atebolrwydd pendant a thargedau mesuradwy. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac i arfarnu i ba raddau y mae'r bwriadau'n cael eu gwireddu'n amserol.
- Mae trafodaethau cyson ymysg staff yn cynnig ffocws pendant ar flaenoriaethau gwella'r ffederasiwn. Mae'r blaenoriaethau, gan gynnwys mynd i'r afael â rhai lleol a chenedlaethol, yn canolbwyntio'n bwrpasol ar gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau dros amser.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae gan arweinwyr drefniadau clir ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o weithgareddau monitro bwriadus i lywio blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer gwelliant. Mae'r prosesau hyn yn cefnogi arweinwyr ar bob lefel i adolygu cynnydd yn rheolaidd a meithrin dealltwriaeth gynyddol o gryfderau a meysydd i'w gwella ar draws ysgolion y ffederasiwn. Mae'r pennaeth yn cydnabod nad yw canfyddiadau sy'n deillio o brosesau monitro rheolaidd bob amser yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson i sicrhau gwelliannau pendant yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac agweddau penodol o'r ddarpariaeth rhwng yr ysgolion.
- Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i gryfhau eu medrau arwain. Mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn wedi'u halinio'n fwriadus â deilliannau gweithgareddau arfarnu a blaenoriaethau gwella'r ffederasiwn.
- Trwy gyfleoedd arwain bwriadus, mae staff ar draws ysgolion y ffederasiwn yn datblygu hyder cynyddol a'r medrau i ymgymryd â chyfrifoldebau strategol ychwanegol yn gyson. Mae staff yn llunio ac yn gweithredu cynlluniau datblygu meysydd dysgu pwrpasol sy'n canolbwyntio'n ddefnyddiol ar gryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae hyn yn eu harfogi i gymryd rhan fwy gweithredol ym mhrosesau gwerthuso a chynllunio strategol y ffederasiwn.

## Mireinio'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod addysgu'n galluogi dysgu dwfn a bod tasgau'n bwrpasol ac yn heriol trwy ddefnyddio'r cynllun newydd

- Mae'r pennaeth yn arwain gyda gweledigaeth glir i ddatblygu cwricwlwm pwrpasol ac i gryfhau ansawdd yr addysgu ar draws ysgolion y ffederasiwn.
- Mae staff yn elwa ar hyfforddiant proffesiynol bwriadus sy'n cyd-fynd â gweledigaeth y ffederasiwn a'i flaenoriaethau gwella.
- Yn gyffredinol, mae staff yn cydweithio'n bwrpasol o fewn y ffederasiwn, ac â staff ysgolion cyfagos, i gyd-gynllunio a sicrhau cysondeb yn y profiadau dysgu a ddarperir i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio awgrymiadau rhieni'n fwriadus i sicrhau bod y gweithgareddau dysgu'n berthnasol i brofiadau bywyd y disgyblion.
- Gyda'i gilydd, mae staff yn dylunio cwricwlwm sy'n cynnwys themâu tymhorol ysgogol a phrofiadau dysgu difyr sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion wneud cysylltiadau ystyrlon ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin eu medrau rhifedd yn fwy cyson mewn gweithgareddau cyfoethog a chyd-destunau bywyd go iawn.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu priodol er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn gynyddol adeiladol dros gyfnod. O fewn sesiynau

mathemateg dyddiol, er enghraifft, maent yn defnyddio ystod addas o adnoddau pwrpasol i gyfoethogi'r dysgu. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi yn bwrpasol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar feithrin medrau meddwl y disgyblion.

- Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i gryfhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol ar draws y ffederasiwn, yn enwedig wrth arddel disgwyliadau uchel a darparu lefel briodol o her i bob disgybl. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod y gweithgareddau dysgu yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion feithrin eu medrau'n gynyddol annibynnol ar draws y meysydd dysgu

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692061

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol